# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD MERCHER, 6ED GORFFENNAF, 2022**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Aml-leoliad**

**Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor,
Caernarfon, LL55 1SH ac yn rhithiol drwy Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Rhodri Jones**

**01286 679256**

**Rhodrijones1@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 28 Mehefin 2022)

# PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

## AELODAETH (18)

## Plaid Cymru (11)

Y Cynghorwyr

Elwyn Edwards
Elin Hywel
Edgar Wyn Owen
Beca Roberts

Delyth Lloyd Griffiths
Kim Jones
Llio Elenid Owen
Rhys Tudur

Annwen Hughes
Linda Morgan
Arwyn Herald Roberts

## Annibynnol (6)

Y Cynghorwyr

Gwilym Jones
Peter Thomas
Gruffydd Williams

Robert Glyn Daniels
Elfed Powell Roberts
Rob Triggs

## Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur

Y Cynghorydd Stephen Churchman

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd ar gyfer 2022-2023

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-Gadeirydd ar gyfer 2022-2023

## 3. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod y'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 10fed Mawrth 2022 fel rhai cywir.

## 7. MONITRO PERFFORMIAD 10 - 13

I ethol Aelodau ar gyfer mynychu Cyfarfodydd monitro perfformiad.

## 8. BWRDD HINSAWDD A NATUR 14 - 15

I enwebu Aelod fel cynrychiolydd i gyfarfodydd Bwrdd Hinsawdd a Natur

# Pwyllgor Craffu Cymunedau
# 10fed o Fawrth 2022

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Stephen Churchman, Glyn Daniels, Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Aled Wyn Jones, Berwyn Parry Jones (Cadeirydd), Elwyn Jones, Dafydd Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Elfed Roberts, Linda Morgan Angela Russell ac Owain Williams

**Swyddogion:** Bethan Adams (Ymgynghorydd Craffu) a Ffion Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

Yn bresennol ar gyfer eitem 5:

Y Cynghorydd Gareth Griffith (Aelod Cabinet Amgylchedd), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd), Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd) a Ceri Hughes Thomas (Rheolwr Parcio a Gwaith Stryd)

Yn bresennol ar gyfer eitem 6:

Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Arweinydd y Cyngor), Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Amgylchedd) a Bethan Richardson (Rheolwr Rhaglen Newid Hinsawdd).

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Kevin Morris Jones, Mike Stevens, a Gethin Glyn Williams

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi.

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 13eg Ionawr 2022, fel rhai cywir.

**5. DIWEDDARIAD - ADOLYGIAD PARCIO**

Cyflwynwyd diweddariad gan Pennaeth Adran Amgylchedd ar y cynnydd hyd yma ar argymhellion y Grŵp Tasg. Atgoffwyd y pwyllgor bod y Grŵp Tasg wedi ei sefydlu ym mis Gorffennaf 2019 i ymgymryd ag adolygiad cynhwysfawr o'r strategaeth parcio weithredol ac ystyried ei addasrwydd a pherthnasedd i anghenion presennol y Cyngor a'i chymunedau. Eglurwyd bod adolygu'r trefniadau parcio ar draws y Sir yn anorfod yn nhermau cynaliadwyedd ariannol o ran cyllidebau'r awdurdod er sicrhau bod trefniadau rheoli ymarferol yn rhai effeithiol ac effeithlon. Ategwyd bod adroddiad cynhwysfawr wedi ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ym mis Rhagfyr 2020

yn cynnig argymhellion arloesol a phriodol ar gyfer datrys rhai o'r materion yn ymwneud a pharcio. Cyflwynwyd adroddiad terfynol i'r Cabinet ym mis Chwefror 2021 ac fe gymeradwywyd yr isod:

- Mabwysiadu Strwythur Ffioedd Parcio Newydd oedd yn sicrhau cysondeb ar draws y Sir
- Adolygu cynnig parcio yn ystod cyfnod y Nadolig
- Dim newidiadau i'r Cynllun Bathodyn Glas
- Dim newidiadau i'r Cynllun Parcio i Breswylwyr
- Cryfhau'r Tîm Gorfodaeth Parcio

Cadarnhawyd bod yr argymhellion hyn wedi'u gweithredu.

O ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig, cydnabuwyd fod llawer o faterion wedi cael cryn effaith ar gymunedau'r Sir yng nghyd-destun parcio. Rhoddwyd diweddariad pellach ar waith oedd yn cael ei wneud i ymateb i ddau faes penodol, sef rheolaeth cartrefi modur a phwerau ymdrin â modurwyr yn parcio'n anghyfreithlon.

Yng nghyd-destun cartrefi modur, eglurwyd, mewn ymateb i nifer o gwynion am gartrefi modur yn parcio mewn lleoliadau anaddas a bod diffyg rheolaeth arnynt o fewn y Sir, bod gwaith helaeth wedi ei wneud ar y cyd gyda'r Adran Economi i geisio adnabod goblygiadau'r cynnydd mewn defnydd cerbydau modur (oherwydd cyfyngiadau teithio dramor) a'r effaith o fewn y Sir. Ymgysylltwyd gyda gweithredwyr safleoedd carafanau yng Ngwynedd, y sector cartrefi modur yn ogystal â'r cyhoedd a chymunedau ar draws y Sir drwy holiadur ac adroddwyd bod yr ymateb wedi bod yn un cadarnhaol iawn ac yn amlygu'r angen am fesurau ar gyfer rheoli'r sector cartrefi modur yn y Sir yn well.

Yn dilyn penderfyniad gan y Cabinet yn Nhachwedd 2021 mabwysiadwyd cynllun peilot i ddatblygu lleoliadau parcio ym meysydd parcio'r Cyngor ar gyfer cartrefi modur fyddai'n annog defnydd canol trefi a lleihau'r dwysedd o gartrefi modur sy'n defnyddio lleoliadau anaddas. Ategwyd bod Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu i symud y gwaith ymlaen ac y byddai angen cyflwyno ceisiadau cynllunio ar gyfer addasu'r meysydd parcio dan sylw.

Yng nghyd-destun mabwysiadu pwerau towio cerbydau i ffwrdd, eglurwyd bod y drefn wedi dod i rym o ganlyniad i broblemau parcio ar draws y Sir, yn enwedig ardal Llyn Ogwen a Phen y Pas. Ystyriwyd nad oedd diryw o £35 yn ataliad digonol, ac felly cyflwynwyd cynllun o symud y car os nad oedd cydymffurfiaeth gyda'r gofynion parcio. Er bod y cynllun wedi ei ddatblygu gyda chydweithrediad yr Heddlu, adroddwyd bod y Cyngor bellach gyda hawliau gweithredu ac yn cydweithio gyda chwmni Gwalia Garage, Caeathro. Nodwyd bod bwriad cyflwyno diweddariad ar y drefn wrth i'r cynllun aeddfedu.

Diolchwyd am yr adroddiad

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-
- Bod yr ymateb i'r problemau parcio i'w croesawu
- Bod cynnig darpariaeth mewn meysydd parcio'r Cyngor yn creu cystadleuaeth gyda meysydd carafanau'r Sir
- Angen ystyried agosatrwydd y meysydd parcio at gartrefi
- Ni fydd y meysydd parcio yn cael eu goruchwylio – gall hyn arwain at ymddygiadau gwrthgymdeithasol
- Pwy fyddai'n gwaredu'r gwastraff a charthffosiaeth?

- Sut mae gwahaniaethu rhwng parcio dros nos a gwersylla dros nos? Rhaid amlygu'r gwahaniaeth os yn cyflwyno cyfyngiadau
- A fydd gyrwyr loriau (sy'n gorfod cymryd egwyl orffwys) yn cael eu rheoli yn yr un modd? Gall hyn greu problemau i glydwyr sy'n darparu cynnyrch i fusnesau lleol
- Bod angen diffiniad clir rhwng cartrefi modur, faniau gwersylla (camper vans) a faniau gwersylla sydd yn plygu (folding campers)
- Bod Cymru yn ymddangos fel gwlad 'anghyfeillgar' i ddefnyddwyr cartrefi modur
- Bod rhaid gwneud lle ar gyfer cartrefi modur
- Awgrym bod rhai perchnogion cartrefi modur yn osgoi talu am le ar faes carafanau pwrpasol er bod lle ar eu cyfer
- Bod Gwynedd yn Sir weddol ei maint ac felly anghenion parcio pob cymuned yn wahanol – anodd cael trefniadau sydd yn siwtio pob ardal
- Cais i ail farcio meysydd parcio gyda rhai baeau yn rhy gul i geir
- Awgrym i leihau niferoedd baeau bysiau mewn meysydd parcio – buasai hyn yn rhyddhau mwy o le i geir
- Arwyddion yn gymhleth – rhai yn cynnig tocyn 24awr ond eto arwydd gwahanol yn nodi dim aros dros nos
- Maes parcio Llandanwg angen sylw – llinellau baeau yn annelwig, arwyddion wedi gwisgo ac ysgrifen yn pylu
- Bod nifer o faterion da wedi cael eu gweithredu o ganlyniad i'r adolygiad
- Bod angen trefniadau gorfodaeth fel rhan o'r cynllun peilot.

Mewn ymateb i sylw bod dirwy o £35 yn annigonol i atal parcio anghyfreithlon, nodwyd bod dirywion yn cael eu gosod yn genedlaethol, ond bod ymholiadau wedi cael eu gwneud ynglŷn â defnydd o ddirywion gwahanol fel modd o wella cydymffurfiaeth. Adroddwyd e.e., bod y cynllun towio, cydweithio gyda'r Adran Cefnffyrdd a chyflwyno llinellau melyn dwbl yn ardal Ogwen wedi gwella'r sefyllfa ar ochr Gwynedd ond nad oedd Conwy wedi mabwysiadu ataliadau parcio. Ategwyd bod mesur llwyddiant y cynllun towio yn gynamserol, ond eisoes gwelwyd gwell cydymffurfiaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau am gartrefi modur, nodwyd y byddai modd rhannu'r gwaith ymchwil a gwblhawyd gyda'r aelodau. Derbyniwyd bod angen ystyried lleoliadau'r meysydd parcio yn ofalus a bod addasrwydd safle yn bwysig. Ategwyd bod materion megis effaith mwynderau, effeithiau gweledol a llifogydd yn cael eu hystyried ac y byddai pob cais yn gorfod mynd drwy'r broses cynllunio. Nodwyd hefyd y byddai cynllun peilot yn fodd o weld a thystiolaethu beth sydd yn dderbyniol.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r angen am beiriannau talu ac arddangos sydd yn derbyn cerdyn ac arian parod ar draws y Sir, nodwyd bod trafferthion gyda rhai peiriannu sydd yn derbyn cerdyn oherwydd diffyg signal, ond bod pob maes parcio yn cynnig talu gyda ffôn. Ategwyd bod taliad (drwy ap) gyda ffôn yn cynnig manteision sylweddol ac wedi bod yn hynod o lwyddiannus. Nodwyd y byddai'r ddarpariaeth yn gwella, wrth uwchraddio peiriannau talu byddent yn cynnwys cyfarpar i gymryd taliadau cerdyn.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chais gan aelod o'r cyhoedd (drwy law Is-gadeirydd y Cyngor) i'r Cyngor ystyried cyflwyno amseroedd byr ar gyfer ymwelwyr i hafan iechyd neu osod baeau pwrpasol o fewn y maes parcio, nodwyd bod y mater yn cael sylw a thrafodaeth uniongyrchol wedi ei gynnal gyda'r ymholydd.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn â chais i swyddogion gorfodaeth ddefnyddio disgresiwn

wrth osod dirwy gan annog gyrwyr i 'symud ymlaen' neu 'osgoi gor-aros', nodwyd bod rhai sefyllfaoedd parcio yn anodd ei rheoli, ond bod y cyfyngiadau parcio yn cael eu gosod i bawb - lleol neu beidio. Ategwyd bod y swyddogion yn ystyried disgresiwn wrth ddadlwytho, llwytho a diogelwch ffyrdd yn gyffredinol, ac nad creu incwm oedd y prif yrrwr yma. Y flaenoriaeth oedd cadw ffyrdd yn ddiogel a bod yn gyson a theg gyda phawb. Nodwyd bod gwaith gorfodaeth gan amlaf yn digwydd yn ystod y dydd, ond yn hwyrach mewn ambell faes parcio lle'r oedd parcio 24 awr. 'Roedd angen sicrhau diogelwch swyddogion.

Mewn ymateb i sylw yng nghyswllt pwyntiau gwefru trydan, nodwyd bod arian cyfalaf wedi ei glustnodi a derbyniwyd grantiau i ariannu gosod darpariaeth pwyntiau gwefru trydan. Eglurwyd bu oediad yn sgil y pandemig a materion is-adeiledd e.e. yr angen am is-orsaf trydan yn Nolgellau. Nodwyd y byddai'r gwaith o osod y ddarpariaeth yn digwydd dros y flwyddyn nesaf.

Mewn ymateb i sylw ynglŷn ag atal cartrefi modur rhag parcio mewn culfannau dros nos a bod angen gosod arwyddion yn amlygu hyn, nodwyd bod y mater yn un cymhleth oherwydd bod nifer o is-ddeddfau i'w hystyried os am ddatrys y mater. Ategwyd bod y Gwasanaeth wedi ystyried cyngor cyfreithiol. Pwysleisiwyd ni fyddai datrysiad yn y tymor byr.

**PENDERFYNWYD**

**Derbyn y diweddariad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

## 6. CYNLLUN ARGYFWNG HINSAWDD A NATUR

Cyflwynwyd diweddariad gan Arweinydd y Cyngor yn adrodd ar yr hyn roedd y Cyngor yn ei wneud i ymateb i'r heriau newid hinsawdd a natur a chamau eraill sydd yn ymarferol i'r Cyngor weithredu arnynt i'r dyfodol.

Adroddwyd bod y Cabinet wedi mabwysiadu Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur (a luniwyd gan dasglu a sefydlwyd gan y Cabinet – Bwrdd Newid Hinsawdd) ar 8 Mawrth 2022. Nodwyd bod y Bwrdd Newid Hinsawdd yn cynnwys Aelodau Cabinet a Phrif Swyddogion ac yn fwy diweddar gwahoddwyd Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau yn aelodau sefydlog o'r Bwrdd.

Eglurwyd bod y Cynllun Argyfwng yn cael ei arwain gan Pennaeth yr Amgylchedd ond bod cyfrifoldeb ar bob adran yn y Cyngor i weithredu'r cynllun ynghyd a chyfraniadau gan gymunedau'r Sir. Amlygwyd bod sylw wedi ei wneud nad oedd cyfeiriad at fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn y cynllun, a derbyniwyd ymateb gan y Pennaeth Cyllid yn nodi bod camau sylweddol wedi eu gwneud yn y maes buddsoddi er nad oes rheolaeth uniongyrchol gan y Gronfa ar y buddsoddi.

Nodwyd mai'r her oedd cyrraedd targed net sero erbyn 2030. Derbyniwyd bod camau heriol i'w cyflawni ond bod y Cyngor yn benderfynol o gyrraedd y targed a osodwyd gan Llywodraeth Cymru. Amlygodd Pennaeth yr Amgylchedd bod y cynllun yn ddogfen fydd yn cael ei datblygu a'i haddasu'n rheolaidd gan nodi dau gam i'r cynllun: Cam 1 yw'r cynllun presennol sydd yn cynnwys sefydlu trefn briodol a chamau mae'r Cyngor yn bwriadu eu cymryd er mwyn newid y gwasanaethau maent yn eu darparu'n uniongyrchol. Byddai cam 2 yn cael ei gyflwyno ar ôl proses ymgynghori ac yn cynnwys rhagor o wybodaeth am fwriad y Cyngor i gynghori a chefnogi gweithgareddau yn y gymuned ar faterion e.e., ynni mewn adeiladau, rheoli a defnydd tiroedd, ailgylchu, parthau llifogydd.

Diolchwyd am yr adroddiad a diolchwyd i'r Bwrdd am ymestyn yr aelodaeth. Cynigiwyd y dylid ystyried gwahodd cynrychiolwyr Arfon a Dwyfor-Meirionnydd yn Senedd Ieuenctid Cymru i fod yn aelodau o'r Bwrdd Newid Hinsawdd.. Nododd yr Arweinydd y byddai'n cyflwyno'r cynnig i'r Bwrdd.

Yn ystod y drafodaeth, cyflwynwyd y sylwadau a ganlyn gan aelodau:-

- Bod cyfle i Cyngor Gwynedd arwain y ffordd drwy ddylanwadu a chyflwyno'r cynllun yn effeithiol
- Bod angen annog y 3ydd sector a'r sector breifat i ystyried addasiadau cyffelyb
- Byddai'n fuddiol cael dadansoddiad costau a budd er mwyn dangos faint o arian gellir ei arbed ynghyd â'r lleihad mewn allyriadau carbon. Drwy nodi canran agos o ran effaith gellir annog y 3ydd sector ac unigolion preifat.

- Bod modd adnabod adeiladau y gellid cyflwyno system gwresogi ddaearol
- A roddir ystyriaeth i fuddsoddi mewn systemau dŵr poeth solar ynghyd â buddsoddi mewn systemau PV (Photovoltaic) i leihau ôl-troed carbon?
- Bod angen cynnal archwiliad yn seiliedig ar garbon o adeiladau a cherbydau
- Bod angen ystyried technoleg amgen e.e., niwclear, hydrogen. Yr Almaen yn buddsoddi mewn prosiectau hydrogen adnewyddadwy, a gynhyrchir drwy ddefnyddio dŵr.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thrydan ac o ble daw'r cyflenwad trydan o ystyried yr argyfwng tanwydd presennol ac effaith y Rhyfel yn Wcráin, a beth yw safiad y Cyngor o ddefnydd ynni niwclear (gwyrdd), nodwyd bod trafodaethau yn cael eu cynnal gyda chyrff allanol ynglŷn â safle gorsaf bŵer Trawsfynydd a'r posibilrwydd o weld datblygiad fyddai'n darparu trydan yno. Ategwyd bod angen ystyried cynlluniau ynni adnewyddol megis, dŵr a môr ond bod angen hwb sylweddol gan y Llywodraeth i arwain ar hynny. Er yr awydd i weld Gwynedd yn mabwysiadu technoleg newydd a manteisio ar adnoddau a phrofiad sydd eisoes yn bodoli yn Nhrawsfynydd a Phrifysgol Bangor, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth San Steffan fydd yn gwneud penderfyniad terfynol ar hyn. Mewn ymateb gan Aelod i'r sylw am ynni niwclear, nodwyd yr angen i ystyried peryglon technoleg niwclear i genedlaethau'r dyfodol a'r angen am ofal wrth ystyried lleoliadau addas i orsafoedd niwclear.

Mewn ymateb i ddefnydd hydrogen, amlygwyd bod cynlluniau cyffrous yn ymwneud a thrafnidiaeth yn y Gogledd yn rhan o'r Cynllun TWF gyda syniadau o fewn y maes hydrogen, fydd yn allweddol i'r dyfodol, yn cael eu trafod yn y Bwrdd Uchelgais Economaidd.

Mewn ymateb i gwestiwn a fydd cefnogaeth ariannol ar gael i gymunedau addasu adeiladau, prynu offer newydd sydd yn garedig tuag at yr amgylchedd ayyb, derbyniwyd bod y gwasgedd ariannol presennol yn bryder, ond y bwriad yw y bydd y Cyngor, yn ystod cam dau o'r cynllun, gyda rôl ymgynghorol o godi ymwybyddiaeth, yn rhoi cyngor i gymunedau, rhannu gwybodaeth am grantiau posib neu gyfeirio at asiantaethau eraill sydd yn cynnig cefnogaeth.

Diolchwyd am yr holl sylwadau. Nodwyd bod y Bwrdd yn agored i bob syniad ac awgrym ond mai'r her yw dehongli'r holl wybodaeth sydd ar gael a thrafod gyda chymunedau sydd a'r awydd i weithredu. O dderbyn bod yr awydd i arbed arian wrth gyflawni rhai o'r cynlluniau rhagwelir costau i'r Cynllun Argyfwng - o ganlyniad mynegwyd bod £3m wedi ei neilltuo ar gyfer hynny.

**PENDERFYNWYD**

- **Derbyn yr adroddiad gan nodi'r sylwadau a dderbyniwyd.**

Cymerodd y Cadeirydd y cyfle i ddiolch i'r holl Aelodau am eu gwaith caled ac i'r swyddogion am eu cefnogaeth. Dymunwyd y gorau i'r Aelodau Etholedig hynny oedd yn ymddeol a diolchwyd iddynt am eu cyfraniadau gwerthfawr i'r Cyngor. Dymunwyd y gorau i'r Aelodau oedd yn dychwelyd i'r Cyngor ac i'r rhai oedd yn sefyll etholiad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30yb a daeth i ben am 12:15yp

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 6 Gorffennaf 2022 |
| **TEITL** | Cyfarfodydd Herio Perfformiad |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I enwebu cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd herio perfformiad |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor. Ystyrir diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun y Cyngor, mesurau perfformiad 'dydd i ddydd' ynghyd â'r gofrestr risg.

2. Rhoddir gwahoddiad i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu i fynychu cyfarfodydd dwywaith y flwyddyn. Gweler ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad, ganllaw herio perfformiad ar gyfer aelodau craffu.

3. Dyma'r meysydd gwaith sydd yn berthnasol i'r Pwyllgor yma ynghyd â'r misoedd pryd estynnir gwahoddiad i gynrychiolwyr y Pwyllgor fynychu:

| Meysydd Gwaith | Pryd |
|---|---|
| Amgylchedd | Medi 2022<br>Mawrth 2023 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | Medi 2022<br>Mawrth 2023 |
| Ymgynghoriaeth Gwynedd | Medi 2022<br>Mawrth 2023 |

4. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau enwebu dau aelod i gynrychioli'r pwyllgor fesul maes gwaith.**

# Canllaw Herio Perfformiad Aelodau Craffu

'Rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth rydym yn ei wneud' - Os ydym am gyflawni hynny, yna mae angen inni reoli ein perfformiad gan wybod pa mor dda rydan ni'n ei wneud a sut allwn wella ar hynny.

## Cyfarfodydd Herio Perfformiad

**PRYD?**

**Bob yn ail fis ag eithrio mis Ebrill ac Awst.** Ceir amserlen ar gyfer y cyfarfodydd ar dudalen 3.

**PWY SY'N MYNYCHU?**

**Pob Cyfarfod**

| | |
|---|---|
| • Aelod Cabinet | Pennaeth Adran / Pennaeth Cynorthwyol |
| • Prif Weithredwr neu Cyfarwyddwr Corfforaethol | Uwch Reolwyr / Rheolwyr Gwasanaeth |



**Dwy waith y flwyddyn**

- Aelod Cabinet cysgodol
- Cynrychiolwyr o'r Pwyllgorau Craffu

Bydd Arweinydd y Cyngor yn mynychu **un cyfarfod y flwyddyn ar gyfer pob un adran** er mwyn gallu cael trosolwg o faterion, risgiau, a pherfformiad ar draws y Cyngor.

**CYFRIFOLDEBAU**

- Y Pennaeth Adran fydd yn cadeirio.
- Yr Adran fydd yn trefnu'r cyfarfodydd.
- Bydd disgwyl i'r Adran rannu adroddiad (sy'n cynnwys diweddariad ar y prosiectau blaenoriaeth Cynllun y Cyngor, y mesurau 'dydd i ddydd' a'r gofrestr risg) gyda chi o leiaf 3 diwrnod cyn y cyfarfod.
- Yr Adran fydd yn trefnu cofnodion o'r prif bwyntiau gweithredu.

**Pa wybodaeth fydd yn cael ei drafod yn y cyfarfodydd?**

Fel rhan o'r gwaith, mi fyddwch yn edrych ar:

- Ddatblygiadau prosiectau'r Adran sydd yng Nghynllun y Cyngor
- Berfformiad mesurau'r Adran (sef y gwaith dydd i ddydd)
- Cofrestr Risg yr Adran

**Be sy'n deillio o'r cyfarfod?**

Bydd yr Aelodau Cabinet angen cyflwyno adroddiad i'r Cabinet dwy waith y flwyddyn o fis Mehefin 2022 (gweler yr amserlen).

Yn ystod mis Ebrill / Mai bydd yr Adran yn casglu gwybodaeth am berfformiad blynyddol y flwyddyn flaenorol. Bydd y wybodaeth yma yn bwydo mewn i Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor - sef y ddogfen sydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Mehefin / Gorffennaf. Fe ddylai'r Adroddiad fod yn gytbwys, gan amlygu'r hyn na lwyddwyd i'w gyflawni yn ogystal â'r hyn a gyflawnwyd



## Eich rôl fel cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu

Mae cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu yn cael gwahoddiad er mwyn:

◊ Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
◊ Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Dylai cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu:

◊ Deimlo'n rhydd i gyfrannu i'r cyfarfodydd trwy ofyn cwestiynau ond parchu'r ffaith mai cyfarfod yr Aelod Cabinet yw hwn a'i fod yn bennaf yn gyfle i'r Aelod Cabinet wyntyllu materion perfformiad gyda rheolwyr gwasanaeth unigol.
◊ Sylwi ar y cyfarfodydd hyn a ffurfio barn ar afael yr Aelod Cabinet a'r Pennaeth ar berfformiad o fewn y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt.
◊ Ffurfio barn ar y tebygolrwydd bod y gwasanaethau y bu trafod amdanynt yn parhau i fedru gwella a darparu gwasanaethau o ansawdd.

**Cyfrifoldeb cynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu fydd adrodd yn ôl ar yr hyn y maent wedi sylwi.** Disgwylir i'r aelodau craffu adrodd nôl i'r cyfarfod anffurfiol cyntaf o'r pwyllgor craffu perthnasol yn dilyn y cyfarfodydd hyn.

## Amserlen 2022/23

| | Ebrill | Mai | Mehefin | | Gorffennaf | Awst | Medi | Hydref | Tachwedd | Rhagfyr | Ionawr | Chwefror | Mawrth | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dyddiad y cyfarfod Cabinet | | | 7 | 28 | 19 | | 13 | 4 | 22 | 13 | 24 | 14 | 7 | 28 |
| Adrannau i gyflwyno'r adroddiad Cabinet | | | | Plant<br>Oedolion | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd | | Addysg<br>Cyllid | Economi<br>CG<br>Tai | Plant<br>Oedolion | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd | Addysg<br>Cyllid | Economi<br>CG<br>Tai | | |
| Amserlennu Cyfarfodydd Herio Perfformiad | | Economi<br>Tai<br>Cyllid<br>Cyfreithiol<br>Addysg<br>Oedolion | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd<br>Cefnogaeth Gorfforaethol<br>Plant | | Economi<br>Tai<br>Cyllid<br>Cyfreithiol<br>Addysg<br>Oedolion<br>Plant | | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd<br>Cefnogaeth Gorfforaethol | Economi<br>Tai<br>Cyllid<br>Cyfreithiol<br>Addysg<br>Oedolion<br>Plant | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd<br>Cefnogaeth Gorfforaethol | Economi<br>Tai<br>Cyllid<br>Cyfreithiol<br>Addysg<br>Oedolion | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd<br>Plant<br>Cefnogaeth Gorfforaethol | Economi<br>Tai<br>Cyllid<br>Cyfreithiol<br>Addysg<br>Oedolion | PaB<br>YGC<br>Amgylchedd<br>Plant<br>Cefnogaeth Gorfforaethol | |

* Coch - Cyfarfodydd i gynnwys Aelodau Cabinet Cysgodol a Chynrychiolwyr y Pwyllgor Craffu

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | Pwyllgor Craffu Cymunedau |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | 6 Gorffennaf 2022 |
| **TEITL** | Enwebu Cynrychiolydd i'r Bwrdd Hinsawdd a Natur |
| **AWDUR** | Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Amgylchedd<br>Bethan Richardson, Rheolwr Rhaglen Hinsawdd a Natur |
| **AELOD CABINET** | Y Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd |
| **PWRPAS** | Mae aelodaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi newid yn dilyn etholiadau'r Cyngor fis Mai 2022, felly mae angen i'r pwyllgor benderfynu o'r newydd pa un o blith ei aelodau fydd yn cynrychioli'r pwyllgor ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Mabwysiadodd y Cyngor y Cynllun-Argyfwng-Hinsawdd-a-Natur.pdf (llyw.cymru) yn dilyn cyfarfod o'r Cabinet ar 8 Mawrth 2022. Uchelgais y cynllun yw "Bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero-net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae "Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd" hefyd yn un o 8 o Flaenoriaethau Gwella y Cyngor o fewn Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-2023.

1.2 Mae'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn amlinellu sut y byddwn fel Cyngor yn addasu ein ffordd o weithio ac o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau ein allyriadau carbon a chynyddu capasiti amsugno carbon. Mae'n cynnig enghreifftiau o brosiectau y byddwn yn eu dilyn, eu costau amlinellol a'r amserlen er mwyn cyflawni.

1.3 Cafodd y Cynllun ei ddatblygu o dan arweiniad strategol y Bwrdd Hinsawdd a Natur (Bwrdd Newid Hinsawdd gynt), ac mae'r Bwrdd hwnnw yn parhau i fod â'r cyfrifoldeb o gynnig arweiniad strategol yn y maes hinsawdd a natur yn nhymor y Cyngor hwn. Mae gan y Bwrdd hefyd rôl yn y broses herio perfformiad ar ddatblygiad y Cynllun.

1.4 Mae aelodaeth y Bwrdd yn cynnwys: Arweinydd y Cyngor (sy'n arwain ar y gwaith yn y maes hinsawdd a natur yn ogystal), Aelodau Cabinet yn y prif feysydd perthnasol, Prif Weithredwr, Penaethiaid Adran yn y prif feysydd perthnasol, Pencampwr Bioamrywiaeth a chynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau.

1.5 Rôl y cynrychiolydd o'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur yw:

- Cyfathrebu barn a gwybodaeth mewn proses ddwy ffordd rhwng y Pwyllgor Craffu Cymunedau a'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.
- Cyfrannu at gynnig arweiniad strategol yn y maes hinsawdd a natur drwy'r Bwrdd Hinsawdd a Natur.
- Tynnu sylw'r Pwyllgor Craffu Cymunedau at faterion yn y maes hinsawdd a natur a all fod angen eu craffu ymhellach.

**2. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

2.1 Mae aelodaeth y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi newid ers cychwyn tymor newydd y Cyngor yn dilyn etholiadau Mai 2022. Mae angen felly i'r Pwyllgor gytuno o'r newydd ar gynrychiolydd ar gyfer y Bwrdd Hinsawdd a Natur.

2.2 Yn dilyn penderfyniad y Pwyllgor Craffu Cymunedau ar berson i'w cynrychioli ar y Bwrdd Hinsawdd a Natur bydd y person hwnnw yn cychwyn yn syth yn y rôl.